OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 1379

## Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010

## RHAN 2

Profi a Symud

**Ymchwiliad milfeddygol i bresenoldeb clefyd**

**10.**—(1) Pan fo arolygydd milfeddygol o'r farn yn rhesymol bod anifail yr effeithiwyd arno neu anifail a amheuir (ac eithrio adweithydd), neu garcas anifail buchol yr effeithiwyd arno neu yr amheuir yr affeithiwyd arno, gan dwbercwlosis, yn bresennol mewn unrhyw fangre, rhaid i'r arolygydd milfeddygol, mor fuan ag y bo'n ymarferol, gymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol i ganfod a yw'r anifail neu'r carcas mewn gwirionedd yn un yr effeithiwyd arno neu a amheuir.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol, at ddibenion yr erthygl hon, archwilio unrhyw anifail buchol neu garcas anifail buchol sydd yn y fangre a chymryd pa bynnag samplau o unrhyw anifail neu garcas o'r fath, neu gyflawni pa bynnag brofion sy'n ofynnol at y diben o wneud diagnosis.

(3) Pan fo arolygydd milfeddygol wedi archwilio anifail buchol, ac o'r farn ei fod yn anifail yr effeithiwyd arno neu'n anifail a amheuir, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i geidwad yr anifail buchol hwnnw, sy'n gwneud yn ofynnol bod y ceidwad—

(a) yn cadw'r anifail hwnnw yn unol â gofynion yr hysbysiad a'i gadw wedi'i ynysu oddi wrth anifeiliaid buchol eraill;

(b) pan fo'n briodol, yn cymryd camau i sicrhau na chymysgir y llaeth a gynhyrchir gan yr anifail â llaeth arall, bod llaeth yr anifail yn cael ei ferwi neu'i sterileiddio rywfodd arall, a bod unrhyw declyn y bu'r llaeth hwnnw mewn cysylltiad ag ef cyn ei drin felly yn cael ei lanhau'n drwyadl a'i sgaldio â stêm neu ddŵr berwedig cyn defnyddio'r teclyn hwnnw drachefn; ac

(c) yn sicrhau na symudir unrhyw anifail buchol i'r fangre neu ba bynnag ran o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad, nac oddi arni, ac eithrio dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd.